

Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2018

Fel y Bo Pawb yn Rhydd



Llun © Tonya Fitzpatrick, World Footprints (<http://WorldFootprints.com>). Cedwir Pob Hawl.

That All May Be Free / Week of Prayer for Christian Unity
18-25 Ionawr www.ctbi.org.uk/weekofprayer


churches
together
IN BRITAIN AND IRELAND

CROESO

Mae gweddïo dros undod yr Eglwys yn golygu cydnabod nid yn unig natur doredig y berthynas rhwng Cristnogion ond hefyd y modd y mae'r anghyfiawnder yn y byd o'n cwmpas yn rhwygo cymunedau Cristnogol ac yn ein rhwystro rhag cyfranogi'n gyflawn yng nghanadaeth Duw. Rhaid cydnabod bod hanes hefyd yn gallu taflu ei gysgod dros y modd yr ydym yn cydfyw mewn cymuned.

Daw'r holl ystyriaethau hyn i'r amlwg yn neunyddiau'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol ar gyfer 2018. Mae eglwysi rhanbarth y Caribî yn darlunio eu cyd-destun eu hunain i ni, gan ddangos sut y bu llaw Duw ar waith yn diddymu caethwasiaeth a'r modd y mae cenhadaeth Duw yn y byd yn ein galw oll i uno i ddileu anghyfiawnder, gan wasgaru cysgodion o'r gorffennol ac ymladd yn erbyn anghyfiawnderau cyfoes megis tlodi, masnachu pobl a chamwahaniaethu.

Mae profiad penodol y Caribî yn ein herio i fyfyrïo'n ddwysach yn ein cyd-destun ninnau ar yr anghyfiawnderau sy'n bodoli yn ein gwledydd ni ym Mhrydain ac Iwerddon, anghyfiawnderau sy'n creu'r rhaniadau sy'n llesteirio ein cyfraniad at genhadaeth Duw. Mae'n galw arnom i weithio'n gadarn i gyfannu pob rhwyg.

Ymhlith yr adnoddau hyn fe welwch nid yn unig drefn gwasanaeth yn seiliedig ar y deunydd rhyngwladol a gyflwynwyd gan eglwysi'r Caribî ond hefyd ddeunyddiau ychwanegol a ysgrifennwyd gan Grŵp Awduron Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon. Rwyf yn gobeithio ac yn gweddïo y bydd y deunyddiau hyn yn eich ysbrydoli wrth i chi gofleidio'r bywyd sy'n ein rhyddhau i fod yn un yn Nuw.

Bob Fyffe, Ysgrifennydd Cyredinol, Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon

Cyflwyniad i'r thema a'r cefndir ar gyfer eleni

Lluniwyd y deunydd ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2018 yn y Caribî. Mae 1.4 miliwn o Gristnogion yn byw yn rhanbarth y Caribî, mewn tiriogaethau ar ynysoedd ac ar y tir mawr ar draws ardal ddaearyddol anferth. Mae'r rhanbarth yn glytwaith cyfoethog ac amrywiol o draddodiadau ethnig, ieithyddol a chrefyddol, gydag amrywiaeth gymhleth o drefniadau llywodraethol a chyfansoddiadol.

Mae'r cyd-destun cyfoes yn dwyn creithiau dwfn y gwladychu a ysbeiliodd bobl o'u hunaniaeth, eu hurddas a'u rhyddid. Ymddangosai fel petai gweithgarwch cenhadol Cristnogol, a oedd ynghlwm mewn llawer o ffyrdd â'r drefn wladychol, yn cefnogi, hybu ac esgusodi'r drefn honno. Yn ystod y pum can mlynedd y parhaodd y drefn wladychol defnyddiwyd yr Ysgrythurau i gyfiawnhau caethiwo'r bobl frodorol. Ond gyda thro ar fyd rhyfeddol, daeth yr union Ysgrythurau hynny i ysbrydoli ac i ysgogi pobl i fynnu adfer eu rhyddid. Gan gydnabod bod llaw Duw ar waith pan ddiddymwyd caethwasiaeth, mae Cristnogion y Caribî yn cynnig Exodus 15, sy'n gân yn dathlu trechu gormes, yn fotiff ar gyfer yr Wythnos Weddi. Daeth yr emyn, Deheulaw Duw (The Right Hand of God), sy'n adleisio cân Miriam a Moses yn moli Duw am ei rym i ryddhau, yn anthem i'r mudiad eciwmenaidd yn y rhanbarth.

Fel yr Israeliaid gynt, mae gan bobl y Caribî gân o fuddugoliaeth a rhyddid i'w chanu. Ac eto, mae heriau cyfoes yn parhau i gaethiwo ac i fygwth urddas y bobl. Adladd y gorffennol gwladychol yw llawer o'r heriau cyfoes hynny. Roedd economïau'r Caribî yn seiliedig yn draddodiadol ar gynhyrchu defnyddiau ar gyfer y farchnad Ewropeaidd – weithiau gan gyflenwi ond un math o gynnyrch. Ni fu economïau'r rhanbarth erioed yn hunangynhaliol a bu'n rhaid iddynt fenthyg ar y farchnad ryngwladol er mwyn datblygu. Achosodd rhwymedigaethau ad-dalu'r dyledion ostyngiad yn y gwariant ar yr union ddatblygu yr oedd y benthyciadau i fod i'w hyrwyddo.

Mae'r testun a ddewiswyd o Exodus 15 yn ein cymell i weld bod cerdded y ffordd tuag at undod yn aml yn golygu teithio trwy gyfnod o gyd-ddioddef. Rhyddhau plant Israel o gaethwasiaeth yw'r digwyddiad sylfaenol i'w datblygiad fel pobl. Er mai Duw sydd yn llywio ein rhyddhad a'n hachubiaeth, mae i fodau dynol eu rhan yng nghyflawniad y gwaith. Mae Cristnogion yn cyfrannu tuag at waith Duw yn cymodi, ond mae ein rhaniadau'n llesteirio ein tystiolaeth i fyd sydd angen ei iacháu gan Dduw.

Mae themâu'r deunyddiau dyddiol yn cyfeirio at y materion cyfoes y mae eglwysï'r Caribî yn mynd i'r afael â hwy. Gwelir treisio hawliau dynol ar draws y rhanbarth a chawn ein herio i ystyried sut y byddwn ninnau'n croesawu'r dieithryn i'n plith. Mae masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern yn parhau'n broblemau enfawr. Mae caethiwed i bornograffi a chyffuriau'n parhau i fod yn heriau difrifol ym mhobman. Mae'r argyfwng dyled yn effeithio'n andwyol ar y gwledydd ac ar unigolion – aeth economïau'r gwledydd a'r bobl yn fregus. Mae'r cyfyngiadau economaidd sy'n arwain at ymfudo, cam-drin yn y cartref a thrais yn parhau i herio bywyd teuluol.

Mae Eglwysï'r Caribî yn cydweithio i iacháu'r clwyfau yng nghorff Crist. Mae cymodi'n golygu edifarhau, gwneud iawn am anghyfiawnderau a iacháu'r cof. Gelwir yr Eglwys gyfan i fod yn arwydd o'r cymod hwnnw ac i weithio'n ddyfal tuag ato.



WELCOME

Praying for the unity of the Church involves a recognition not only of the brokenness of Christian relationships but also how injustice in the world at large rends asunder Christian communities and impedes our participation in God's mission. History too plays a part, casting a shadow over how we live our lives together in community.

All of these issues emerge from the Week of Prayer for Christian Unity materials for 2018. The churches of the Caribbean region describe to us their own context, how the hand of God was active in ending slavery, and how God's mission in the world is a call to us all to unite together in ending injustice, that which casts a shadow from the past and current forms of injustice such as poverty, trafficking and discrimination.

This particular Caribbean experience is a challenge to us in our context to reflect more deeply on the injustices in our own nations in Britain and Ireland which create the divisions that impede our participation in God's mission, with the call to actively work to end all division.

Within these resources you will find not only the worship service derived from the International material that is resourced by the Caribbean churches, but also additional material written by the CTBI Writers Group. I hope and pray that you will find these materials inspiring as you seek to participate in the life that sets us free to be one in God.

Bob Fyffe, General Secretary, Churches Together in Britain and Ireland

Introduction to this year's theme and background

The material for the Week of Prayer for Christian Unity 2018 has been produced in the Caribbean. There are 1.4 Million Christians living in the Caribbean region, across a vast geographical spread of island and mainland territories. They represent a rich and diverse tapestry of ethnic, linguistic and religious traditions, with a complex variety of governmental and constitutional arrangements.

The contemporary context is deeply marked by the history of the colonialism which stripped people of their identity, dignity and freedom. Christian missionary activity, closely tied to the colonial system, seemed to support, encourage and excuse it. During five-hundred years of the colonial system, scripture was used to justify the enslavement of the indigenous people. In a dynamic reversal, those same scriptures became the inspiration and motivation for people to reclaim their liberty. Recognising the hand of God in the ending of enslavement, the Caribbean Christians offer Exodus 15, a song of triumph over oppression, as the motif of the Week of Prayer. The hymn, The Right Hand of God, reflecting the song of Miriam and Moses in praise of the liberating action of God, has become the anthem of the ecumenical movement in the region.

Like the Israelites, the people of the Caribbean have a song of victory and freedom to sing. Yet, contemporary challenges continue to enslave and threaten the dignity

of the people. Many of the contemporary challenges are the legacy of the colonial past. The Caribbean economies have traditionally been based upon the production of materials for the European market – sometimes producing only a single commodity. They have never been self-sustaining and their development has required borrowing on the international market. The servicing of the debt has caused a reduction in spending upon the development that it was meant to facilitate.

The chosen passage from Exodus 15 allows us to see that the road to unity must often pass through a communal experience of suffering. The Israelites' liberation from enslavement is the foundational event in the constitution of the people. Although our liberation and salvation is at God's initiative, human agencies are engaged in their realisation. Christians participate in God's ministry of reconciliation, yet our divisions hamper our witness to a world in need of God's healing.

The themes of the daily material raise some of the contemporary issues addressed by the churches of the Caribbean. Abuses of human rights are found across the region and we are challenged to consider our manner of welcoming of the stranger into our midst. Human trafficking and modern-day slavery continue to be huge issues. Addiction to pornography and drugs, continue to be serious challenges to all societies. The debt crisis has a negative impact upon the nations and upon individuals – the economies of the nations and people have become precarious. Family life continues to be challenged by the economic restrictions which lead to migration, domestic abuse and violence.

The Caribbean Churches work together to heal the wounds in the body of Christ. Reconciliation demands repentance, reparation and the healing of memories. The whole Church is called to be both a sign and an active agent of this reconciliation.



DIWRNOD 1 – CROESAWU'R DIEITHRYN

MAN CYCHWYN

Dylai cof pobl a gafodd eu rhyddhau am eu cyfnod mewn caethiwed ein gorfodi i groesawu'r dieithryn yn ein plith. Mae profiadau pobloedd rhanbarth y Caribî, y bu'r rhan fwyaf ohonynt unwaith yn gaethweision, yn adleisio profiadau Israel yn y Beibl. Cofiw'n am y modd y mae Duw yn adfer urddas pobl Dduw. Mae i eglwysi'r rhanbarth swyddogaeth bwysig o safbwynt atgoffa eu cymunedau o'r ddyletswydd i groesawu ffoaduriaid a phobl sydd wedi'u dadleoli.

Lefiticus 19.33-34 Yr wyt i garu'r estron fel ti dy hun

Salm 146 Y mae'r Arglwydd yn gwyllo dros y dieithriaid

Hebreaid 13.1-3 Y mae rhai, heb wybod hynny, wedi rhoi llety i angyllion

Mathew 25.31-46 Bùm yn ddieithr a chymerasoch fi i'ch cartref

MYFYRDOD

Rydym yn gwneud daioni oherwydd ein bod yn cael ein caru – ni chawn ein caru oherwydd ein bod yn gwneud daioni.

Pe byddai raid i bawb ohonom haeddu ein caru, efallai na fyddem yn derbyn fawr o gariad o gwbl. Gormod o afr a dim digon o ddafad.

Ac eto fe gawn ein caru, gan fod Duw ym mhopeth, hyd yn oed yn y darnau hynny sydd i ni'n hyll neu'r tu hwnt i'w henwi.

Fe gawn ein caru, ond mae Duw am i ni dalu peth o'r cariad yn ôl, gan roi a derbyn mewn cydberthynas.

Mae cariad yn ein gwneud yn well pobl yn ein gwneud yn gymuned lle byddwn yn estyn allan un at y llall.

Mae bod mewn perthynas â Duw yn golygu bod gyda phobl eraill, yn gwneud rhywfaint o ddaioni. Gwarchod y greadigaeth nid llywio popeth at ein mwynhad ni.

Mae'n golygu bod yn deg a pheidio ag ecsploetio eraill. Mae'n golygu rhoi yn lle cymryd. Mae'n golygu sefyll gydag eraill yn hytrach na sathru arnynt. Mae hyd yn oed yn golygu croesawu a pharchu'r dieithryn yn ein plith gan efallai mai Christ yn anhysbys fydd.



CWESTIYNAU

- † Sut ydych chi wedi bod yn ddieithryn?
- † A ydych chi wedi ymweld ag eglwys arall (efallai pan oeddech ar eich gwyliau)? Sut groeso gawsoch chi? Sut oeddech chi'n teimlo?
- † Sut allai bod yn wir groesawgar fod yn heriol? Beth allai ein rhwystro rhag bod yn wir groesawgar?

GWEDDI

Dduw sy'n dryllio rhwystrau,
Rwyt yn cofleidio pob diwylliant a phob gwlad,
Ond cedwi le arbennig yn dy galon
I'r dieithryn, y weddw a'r amddifad.
Estyn i ni rodd dy Ysbryd
Fel y gallwn dy efelychu di,
Gan groesawu pawb fel brodyr a chwiorydd,
Plant dy fynwes,
Dinasyddion ynghyd yn nheyrnas Crist, teyrnas cyfiawnder a heddwch.
Amen



EWCH A GWNEWCH

(www.ctbi.org.uk/goanddo)

Mae Cyngor Eglwysi'r Caribî wedi bod yn cyflawni gwaith eirioli i herio'r gwledydd hynny sy'n cyfyngu ar hawliau pobl o Haiti fel dinasyddion neu'n diddymu'r hawliau hynny.

Ymwelwch ag Ewch a Gnewch i ddarllen hanes Milciades ynghylch gwadu iddo ei hawliau yng Ngweriniaeth Dominica.

Ymwelwch ag Ewch a Gnewch i ganfod ysbrydoliaeth ac anogaeth i barhau i gynorthwyo pobl a orfodwyd i adael eu cartrefi ledled y byd.



DAY 1 WELCOMING THE STRANGER

STARTING POINT

The memory of a liberated people, that they were once enslaved, should compel us to welcome the stranger in our midst. The experience of Biblical Israel resonates with the experiences of the peoples of the Caribbean region, the majority of whom were once slaves. We remember how God restores the dignity of God's people and the churches of the region play an important role in reminding their society of the duty to welcome refugees and displaced persons.

Leviticus 19.33-34 You shall love the alien as yourself

Psalms 146 The Lord watches over the strangers

Hebrews 13.1-3 Some have entertained angels without knowing it

Matthew 25.31-46 I was a stranger and you welcomed me

REFLECTION

We are good because we are loved,
not loved because we are good.
If it was up to each one of us to earn it,
we might not be loved very much.
Too much goat and not enough sheep.
And yet loved we are, since God is in all things,
even the bits we think are ugly and unmentionable.

We are loved,
but God wants us to give some love back,
giving and receiving
in a mutual relationship.
Love makes us better
holds us together
reaching out to the other.

Being in relationship with God means being with other people,
doing some good.
Looking after the creation
and not seeing everything as being there for our enjoyment.

It means being fair and not exploiting others.
It means giving and not taking.
It means being alongside not overpowering others.
It even means welcoming and respecting the stranger in our midst since
it may be the Christ unannounced.



QUESTIONS

- † How have you experienced being a stranger?
- † Have you visited another church (perhaps whilst on holiday)? How were you welcomed? How did you feel?
- † How might being truly hospitable be challenging? What might hold us back from being genuinely hospitable?

PRAYER

Barrier-breaking God,
You embrace all cultures and lands,
But keep a special place in your heart
For the stranger, the widow and the orphan.
Grant us the gift of your Spirit
That we may become as You are,
Welcoming all as brothers and sisters,
Your cherished children,
Citizens together in Christ's kingdom of justice and peace.
Amen



GO AND DO

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

The Caribbean Council of Churches has been involved in advocacy to challenge those nations that are restricting or stripping Haitians of citizenship rights.

Visit Go and Do to read Milciades story about being denied his rights in the Dominican Republic.

Visit Go and Do to find inspiration and encouragement to keep helping those who have been forced from their homes across the world.



DIWRNOD 2 – GWRTHSEFYLL CAETHWASIAETH FODERN

MAN CYCHWYN

Masnachu pobl yw caethwasiaeth heddiw. Sut mae herio hyn a'i ddileu? Yn Nameg y Samariad Trugarog ac yn ymateb Paul i Onesimus y caethwas gwelwn y modd mae mynd yn groes i arferion cymdeithas yn cadarnhau bod llun a delw Duw ym mhob unigolyn, ac felly'n herio'r pethau hynny sy'n allgáu pobl neu'n eu cadw mewn cadwyni. Mae llais Cristnogol unedig yn hanfodol, ac os na fydd Cristnogion yn gweithredu gyda'i gilydd bydd caethwasiaeth fodern yn rhy gryf i ni ei gwrthsefyll.

Genesis 1.26-28 Creodd Duw y ddyfnoliaeth ar lun a delw Duw

Salm 10.1-10 Pam, Arglwydd, y sefi draw?

Philemon Nid fel caethwas mwyach ond fel un sy'n fwy na chaethwas, yn frawd annwyl

Luc 10.25-37 Dameg y Samariad Trugarog

MYFYRDOD

Nid merch, ond marsiandiaeth,
nid chwaer, ond chwant am elw,
nid brawd, ond llafur brwnt o rad,
nid teulu ar ffo mewn arswyd
ond cyfle i wneud ceiniog dda.

Yn gaeth mewn gwe o gelwyddau
a chrafangau ofn a chamdriniaeth,
yng ngafael dwylo twyllodrus
a rhwymau addewidion ffals -
eu hurddas wedi'i wahardd.

Calon galed -
peth i'w ecsploetio.
Calon ddolurus -
plentyn mynwes Duw .
Calon gadarn
mewn gobaith am ryddid.

CWESTIYNAU

- † Beth sy'n dod i'ch meddwl wrth ystyried y termau 'masnachu pobl' a 'caethwasiaeth'?
- † I ba raddau ydych chi'n meddwl bod Paul yn herio caethwasiaeth yn ei lythyr at Philemon?
- † Sut mae ymateb unedig gan Gristnogion yn gwneud gwahaniaeth wrth herio anghyfiawnderau megis masnachu pobl?

GWEDDI

Dduw cyfiawn a theg,
Gelwaist dy bobl o gaethwasiaeth
I dyfu i fod yn ddynoliaeth newydd
Lle rydym oll yn un yn Iesu Grist ein Harglwydd.
Cofleidia â'th gariad y bobl sy'n cael eu masnachu fel
caethweision heddiw.
Nertha dy Eglwys
I gondemnio'r fasnach ddrygionus honno a'i dileu,
Gan roi cariad a thrugaredd Crist ar waith
Wrth i ni gynnig ymgeledd i'r rhai sy'n dioddef o'i herwydd.
Amen.



EWCH A GWNEWCH

(www.ctbi.org.uk/goando)

Mae Eglwysi Diwygiedig yn y Caribî wedi uno â Chyngor y Genhadaeth Fyd-eang a Chyngor Cenhadol y Caribî a Gogledd America i addysgu cymunedau Cristnogol ynghylch dileu melltith masnachu pobl.

Ymwelwch ag Ewch a Gnewch i ddarllen hanes Sanlaap, a fu'n cynorthwyo pobl a gafodd eu masnachu.

Trefnwch gyfarfod rhwng yr eglwysi yn eich ardal a gwahoddwch siaradwr o gorff sy'n ymgyrchu yn erbyn masnachu pobl i ddod yno i rannu gwybodaeth ac i'ch addysgu a'ch ysbrydoli i weithredu ar y cyd yn erbyn masnachu pobl. Ymwelwch ag Ewch a Gnewch am ragor o wybodaeth.



DAY 2 RESISTING MODERN SLAVERY

STARTING POINT

Human trafficking is modern day slavery. How should this be challenged and ended? In the parable of the Good Samaritan and in Paul's response to the slave Onesimus we see how transgressing social norms affirms the image of God in every individual, and thereby challenges those things that exclude people or hold them in chains. A united Christian voice is essential and unless Christians act together, modern day slavery will be too strong to resist.

Genesis 1.26-28 God created humankind in God's own image

Psalms 10.1-10 Why, O Lord, do you stand far off?

Philemon No longer as a slave but more than a slave, a beloved brother


Luke 10.25-37 The Parable of the Good Samaritan

REFLECTION

Not a daughter, but a dollar
not a sister, but profit gained
not a brother, but cheap labour
not a family fleeing terror
but a fortune to be made.

Captured by a web of lies
Snared by fear and manipulation
Seized by deceitful hands
Bound by broken promises
All dignity denied

Heart hard
a commodity to exploit
Heart sore
a beloved child of God
Heart held
in hope of liberation.




QUESTIONS

- † What do the words 'human trafficking' and 'slavery' evoke for you?
- † To what extent do you think Paul challenges slavery in the letter to Philemon?
- † How does a united Christian response make a difference in challenging injustices, such as human trafficking?

PRAYER

Just and righteous God
You called your people out of slavery
And onwards to the new humanity
Where all are one in Christ Jesus our Lord.
Enfold with your love those trafficked as slaves today.
Empower your Church
To denounce and work to end that evil trade
Living out the love and compassion of Christ
As we tend its victims.
Amen.



GO AND DO

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Reformed Churches in the Caribbean have joined with the Council for World Mission and the Caribbean and North American Council for Mission to educate Christian communities to end the scourge of human trafficking.

Visit Go and Do to read the story of Sanlaap, helping those who have been trafficked.

Organise a meeting between the churches in your area and invite a speaker from an anti-trafficking organisation to come along to inform, educate and inspire you to take action together against human trafficking. Visit Go and Do to find out more.



DIWRNOD 3 – GWARCHOD URDDAS POBL

MAN CYCHWYN

Pan feddylwn am y gair ‘caethwas’ byddwn yn aml yn meddwl am rywun sy’n gwisgo cadwyni haearn ac a orfodir i weithio. Ond mae ffurfiau eraill o gaethiwed lle gallai’r cadwyni fod yn llai amlwg. Mae pornograffi, yn enwedig ar y rhynggrwyd, yn treisio urddas pobl, ac oherwydd ei fod yn troi bodau dynol yn nwyddau, mae mor ddinistriol â chaethwasiaeth, gyda merched, plant a phobl ifanc yn aml yn dioddef gyntaf o’i herwydd. Fel Cristnogion fe’n gelwir i barchu urddas pobl, gan gydnabod mai rhodd gan Dduw yw rhywioldeb a gweithio yn erbyn popeth sy’n difrodi’r urddas hwnnw a’r rhodd honno.

Exodus 3.4-10 Mae Duw’n rhyddhau pobl a gaethiwr gan eraill

Salm 24.1-6 Arglwydd, y ni yw’r bobl sy’n gweld dy wyneb

1 Corinthiaid 6.9-20 Felly gogoneddych Dduw yn eich corff

Mathew 18.1-7 Ond gwae’r sawl sy’n gyfrifol am achos cwmp!

MYFYRDOD

Yn llygaid y sawl sy’n edrych y mae prydferthwch,
meddan nhw;
ond beth am y rhai sy’n syllu
heb falio am brydferthwch?

Gall y rhosyn, er ei bersawr,
gael ei docio
cyn ei ddydd,
heb siawns blaguro;
petalau eto ymhlyg
yn cwmpo i bydru rhwng y chwyn.

Prydferthwch
mewn caethiwed,
yn nwylo chwant hunanol.
Gellir golchi dwylo,
ond nid mor hawdd dileu
staen cywilydd.

Prydferthwch
mewn coflaid dyner;
yn werthfawr.
Sychu’r dagrau.
Dymchwel byrddau’r twyll
yn ein temlau;
ac yn hyn oll,
lle mae deheulaw Duw?



CWESTIYNAU

- † Beth sy'n dod i'ch meddwl wrth ystyried y geiriau 'pornograffi' ac 'ecsplotio'?
- † Sut mae'r rhyngwyd, cyfryngau cymdeithasol a mathau eraill o dechnoleg fodern yn ein rhyddhau neu'n ein caethiwo?
- † Sut allwn ni warchod urddas pobl yn y byd modern?

GWEDDI

Dduw prydferthwch,
Fe'n gwnaethost ar dy lun a'th ddelw dy hun
Gan roi i ni degwch
Sydd ond ychydig is nag eiddo'r angylion.
Cadw ni rhag ecsplotio
Cyrff ein gilydd.
Er mwyn Crist,
A wisgodd ein cnawd ac sy'n teyrnasu mewn gogoniant,
Dysga ni
Fod ein cyrff yn sagrafennau dy ras,
Ac yn llestri dy brydferthwch di dy hun.
Amen



EWCH A GWNEWCH

(www.ctbi.org.uk/goanddo)

Mae llawer o eglwysi Cristnogol yn y Caribi yn cyd-bryderu ynghylch problem pornograffi, yn arbennig ar y rhyngwyd.

Ymwelwch ag Ewch a Gnewch i ganfod sut y gallech chithau rannu gwybodaeth yn eich eglwysi ynghylch grwpiau cymorth i bobl sy'n gaeth i bornograffi.

Ystyriwch a thrafodwch yn eich grŵp bach neu eich grŵp astudio'r Beibl yn eich eglwys y ffyrdd y gellir edrych ar y corff mewn modd cadarnhaol a chyfannol o fewn ein diwylliant, er enghraifft, mewn orielau celf. Gallech ddarllen llyfr gyda'ch gilydd i ddysgu am ffyrdd cadarnhaol o edrych ar y corff, er enghraifft, *Body* gan Paula Gooder.

DAY 3 UPHOLDING HUMAN DIGNITY

STARTING POINT

Our image of a slave is often of someone wearing iron chains and being forced to work against their will. But there are other forms of enslavement where the chains may be less visible. Pornography, especially via the internet, is an assault on human dignity, and, because it commodifies the human person, it is as destructive as slavery, where women, children and young people can be the first victims. As Christians we are called to uphold human dignity, recognize God's gift to sexuality and to work against those things that damage that dignity and gift.

Exodus 3.4-10 God frees those who are in human bondage

Psalms 24.1-6 Lord, we are the people who see your face

1 Corinthians 6.9-20 Therefore glorify God in your body

Matthew 18.1-7 Woe to the one by whom the stumbling block comes!

REFLECTION

Beauty is in the eye of the beholder
the saying goes;
but what if those who look on
are not interested in beauty?

A rose by any other name
can still be pruned
too early,
before it is in bloom;
petals not allowed to unfurl as yet
fall between the weeds that would choke.

Beauty held
captive,
by the hand that wants only for itself.
Hands can be washed,
but the stain of shame
is not so easily removed.

Beauty held
tenderly;
precious.
Tears wiped away,
tables turned
in our temples;
where is God's hand
in all of this?




QUESTIONS

- † What do the words 'pornography' and 'exploitation' evoke for you?
- † How do the internet, social media and other forms of modern technology liberate or enslave us?
- † How in the modern world might we uphold human dignity?

PRAYER

God of beauty,
You made us in your image
Endowed us with a loveliness
Little lower than the angels'.
Save us from the exploitation
Of each other's bodies.
For the sake of Christ,
Who became flesh and reigns in glory.
Teach us that
Our bodies are sacraments of grace,
And vessels of your beauty.
Amen.



GO AND DO

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Many Christian churches in the Caribbean share a concern about the issue of pornography, especially via the internet.

Visit Go and Do to find information about how you can provide information about pornography addiction support groups in your churches.

Explore and discuss in your church small group or bible study group where bodies can be viewed positively and holistically in our culture, e.g. art galleries. You could read a book together to explore a positive perspective on how to view the body, e.g. *Body* by Paula Gooder.

DIWRNOD 4 – TRECHU TRAIS

MAN CYCHWYN

Ni allwn fyw fel disgyblion Crist yn y byd ac osgoi bodolaeth trais. Mae'r rhan fwyaf o grefyddau'n datgan eu bod yn heddychlon ac yn ymwrthod â thrais. Fodd bynnag, gelwir ar eglwysi, sydd wedi'u galw i fod yn un ac i fod yn rhan o genhadaeth Duw yn y byd, hefyd i ddirnad Efengyl gobaith. Dyma Efengyl y gellir ei chyhoeddi i bobl sy'n byw gyda chanlyniadau rhyfela rhwng gangiau, trais yn y cartref neu ofn trais.

Eseia 9.2-7a Fe dyf ei awdurdod yn barhaus, a bydd heddych tragwyddol

Salm 34.1-14 Ceisia heddych a'i ddilyn

Datguddiad 7.13-17 Bydd Duw yn sychu pob deigrin o'u llygaid hwy

Ioan 14.25-27 Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd

MYFYRDOD

Yn ein gwledydd a'n hynyoedd
mae trais yn esgor ar drais,
(‘llygad am lygad...’)
a cham-drin, lladd a threisio
(‘darnio bob yn gymal...’)
yn dod yn ffordd o fyw
wrth greithio cyrff yr ifanc am byth;
gangiau'n llurgunio cymunedau,
cam-drin yn dryllio bywydau –
yn y cartref.
(‘eu dryllio yn erbyn y graig?’)



Fe welwn ni.

Fe wyddom ni.

Ac fe grefwn: “Er mwyn popeth. Yn enw'r Tad. Stopiwch.”

Estynna Duw ei law i dywyllwch y poen, gan ddweud:

‘Dof â chysur, cyfiawnder, tegwch.’

Ac fe gofiwn

drwy niwl y trais,
y tu ôl i furiau'n cymunedau caerog,
a dan harddwch arwynebol ein hynys ddengar,
bod harddwch na wêl y taflenni gwyliau,
prydfwrthwch sydd yn llygaid ac yng nghalon
Duw ein gobaith.





Gwneir pob un bywyd sagrafennol,
 sy'n werthfawr uwchlaw geiriau,
 yn gyflawn,
 yn iach,
 yn neheulaw Duw.

Credwn,
 yn y baradwys sydd i ddod
 ac sydd mor agos atom â'r tonnau sy'n
 'stwyrian ar ein traethau euraid,
 na fydd

na newyn
 na syched
 na llarpio bywydau
 na llethu'r ddaear.

Yma fe sychir ein dagrau.
 Bydd ffynhonnau dyfroedd bywiol
 yn adfer ein cyrff lluddedig,
 a'n daear fregus.



CWESTIYNAU

- † Ydych chi wedi teimlo eich bod dan fygythiad mewn lle y buoch cyn hynny'n teimlo'n ddiogel ynddo?
- † Ym mha ffyrdd ydych chi'n pryderu am y cynnydd mewn digwyddiadau treisiol yn eich ardal chi ac yn y gymdeithas yn gyffredinol?
- † Beth yw'r neges obeithiol y gall Cristnogion ei lleadaenu mewn byd sydd dan gysgod trais?

GWEDDI

Dduw cymod,
 Cyflawni dy arfaeth dragwyddol di
 Wnaeth dwylo rhwygiedig Crist.
 Fe'n gelwi ni i fod yn arwyddion tangnefedd
 Yng nghanol trais,
 Y gobaith byw
 Yng nghanol anobaith.
 Boed i fywyd Crist ynom ni
 Ein hysgogi i roi popeth, a rhoi'n hunain,
 I wasanaethu ei gymod.
 Amen.

EWCH A GWNEWCH

(www.ctbi.org.uk/goanddo)

Yn y Caribi, mae trais yn broblem y gelwir yr eglwysi i ymateb iddi.

Ymwelwch ag Ewch a Gwnewch i ganfod rhagor am yr hanes y tu hwnt i ddelweddau'r hysbysebion gwyliau o'r Caribi.

Cysylltwch â Chymorth i Wragedd yn eich ardal i weld pa adnoddau sydd eu hangen arnynt a threfnwch gasgliad ar y cyd gan eglwysi eich ardal.

Gwisgwch mewn du ar ddyddiau Iau i gydsefyll â dioddefwyr trais rhywiol a thrais yn y cartref yn eich ardal chi – ymwelwch ag Ewch a Gwnewch am ragor o wybodaeth.



DAY 4 OVERCOMING VIOLENCE

STARTING POINT

Christian discipleship lived out in the world cannot avoid the reality of violence. Most religions declare themselves to be peaceful and against violence. However, churches, called into unity and called to be part of God's mission in the world, are also called to discern the Gospel of hope. This is a Gospel that can be proclaimed to those who live with the consequences of gang warfare, domestic violence or the fear of violence.

Isaiah 9.2-7a His authority shall grow continually, and there shall be endless peace

Psalms 34.1-14 Seek peace, and pursue it

Revelation 7.13-17 God will wipe away every tear from their eyes

John 14.25-27 Peace I leave with you

REFLECTION

In our beautiful (is)land
violence breeds violence;
 ('an eye for an eye...')
and abuse, murder, rape,
 ('limb from limb...')
become a way of life
as teenage bodies are ravaged beyond repair,
neighbourhoods are gang-violated,
and lives abused –
domestically
 ('heads dashed against rock?')

We see.

We know,

and we wail: "For the love of God. In the name of Jesus. Stop."

The hand of God stretches into the pain saying:
'I bring comfort, justice, righteousness,'
and we remember that

 veiled by the violence;
 obscured by our walled communities,
 beneath the facade of this island-idyll

lie true all-inclusive packages of
beauty
seen and known
by our God of hope.



Each single sacramental life,
precious beyond measure,
is made whole
in the healing
hand of God.

We believe that
in the paradise-heaven
as close to us as the waves
lapping our golden shores
there is

no hunger
no thirst
no torching of lives
or scorching of earth.

Here our tears are wiped away.
Springs of living water
revive our worn-out bodies,
our weary earth.

PRAYER

Reconciling God,
Christ's nail-pierced hands
Are your intent from eternity
You call us to be signs of peace
In the midst of violence,
The embodiment of hope
In the midst of despair.
May Christ so live in us
That we might spend and be spent
In his ministry of reconciliation.
Amen.



QUESTIONS

- † Have you felt threatened in a place where you previously felt safe?
- † In what ways are you concerned about increasing violence in your area and in society?
- † What is the message of hope that Christians can bring in a world troubled by violence?

GO AND DO


(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Within the Caribbean, violence is a problem to which the churches are called to respond.

Visit Go and Do to find out more about the story behind the holiday images of the Caribbean.

Contact your nearest Women's Aid to find out what supplies they currently need and organise a joint collection between churches in your area.

Wear black on Thursdays in solidarity with victims of rape and domestic violence, visit Go and Do to find out more.



Corwyntoedd yn croesi'r Caribi, Medi 2017 ©NASA vir_2017249





Hurricanes crossing over the Caribbean, September 2017 ©NASA vir_2017249



DYDDIADAU

Yn draddodiadol, cedwir yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol o 18-25 Ionawr (wyth niwrnod Pedr a Phaul). Fodd bynnag, bydd rhai grwpiau yn dewis amserau eraill o'r flwyddyn, yn enwedig oddeutu'r Pentecost, sy'n wyl symbolaidd o safbwynt undod yr Eglwys. Penderfynwch chwi, gan gymryd sylw o ffactorau lleol. I ganiatáu eu defnyddio ar unrhyw adeg o'r wyddyn, nodir y defnyddiau ar gyfer y Dyddiau â'r rhifau 1-8.

TREFN Y GWASANAETH

Gallwch dynnu allan y drefn gwasanaeth yng nghanol y llyfryn a'i llungopïo, os mynnwch. Neu gallwch lawrlwytho'r holl adnoddau oddi ar wefan CTBI, ac y mae croeso i chwi eu golygu a'u haddasu at ddefnydd lleol. Cydnabyddwch, os gwelwch yn dda, mai ffynhonnell y deunydd yw Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, adnoddau at yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol.

MUR UNDOD CRISTNOGOL

Os gwelwch yn dda, ychwanegwch fanylion a ffotograffau o'ch digwyddiadau, eich gweddïau a'ch negesau ynghylch undod at y 'mur' undod Cristnogol ar www.weekofprayer.org drwy eu Trydar gan ddefnyddio #wpcuwall. Bydd eich trydariadau yn ymddangos yn awtomatig (ar ôl oedi byr).

ADDOLIAD RHYDD

Eleni mae Gr p Awduron deunyddiau'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2018 wedi cynnwys adnodd ychwanegol sydd ar gael i'w lawrlwytho ar-lein yn www.ctbi.org.uk/weekofprayer. Mae'r Addoliad Rhydd, sy'n defnyddio peth o'r deunydd yn y prif wasanaeth, yn syml ac eglur ac mae ar gael fel cyflwyniad PowerPoint.



OEDFA FAWL AGORIADOL

OPENING WORSHIP SERVICE



Llun © Tonya Fitzpatrick, World Footprints (<http://WorldFootprints.com>). Cedwir Pob Hawl.

Y mae nerth dy ddeheulaw, O Arglwydd, yn ogoneddus (Exodus 15:6)

Your right hand, O LORD, glorious in power (Exodus 15:6)



YMGYNNULL

Cân

Tra cenir y gân, daw'r rhai sy'n arwain yr addoliad i mewn y tu ôl i rywun yn cludo'r Beibl, yna gosodir y Beibl mewn man amlwg.

Croeso

Gras ein Harglwydd Iesu Grist
a chariad Duw
a chymdeithas yr Ysbryd Glân a fo gyda chwi oll.

A chyd a thithau.

Rydym yma i ddiolch am ddaioni Duw tuag at yr Eglwysi Cristnogol trwy'r byd. Heddiw, fe rannwn ym mhrofiad Eglwysi'r Caribî, sydd â'u hanes yn cynnwys gormes, gwladychu a chaethwasiaeth. Rydym hefyd yn dathlu'r ffaith iddynt, drwy'r Ysgrhythurau, weld trawsnewid eu bywydau gan y Duw sy'n rhyddhau.

Trwy Ras Duw profasant, lle bu cadwyni caethiwed, rwybau newydd cymuned a chariad rhwng pobl. Wrth weld Duw'n gweithio drwyddynt, bu iddynt ddarganfod eu hundod.

Boed i Dduw lefaru wrthym ninnau drwy eu profiad hwy.

YMBIL AM YR YSBRYD GLÂN

Gellir canu'r ymateb i'r ymbil.

Una dy weision yn rhwymau undod.

Tyrd, Ysbryd Glân!

Dysg ni i weddio.

Tyrd, Ysbryd Glân!

Rhyddha ni oddi wrth gaethwasiaeth pechod.

Tyrd, Ysbryd Glân!

Cynorthwya ni yn ein gwendid.

Tyrd, Ysbryd Glân!

Adfer ni i fod yn wir yn blant i ti.

Tyrd, Ysbryd Glân!



Cân o Fawl

GATHERING

Song

During the singing of the song, those leading the worship enter behind someone carrying the Bible, which is placed in a prominent place.

Words of Welcome

The grace of our Lord Jesus Christ,
the love of God,
and the fellowship of the Holy Spirit be with you all.

And also with you.

We are here to be thankful for God's goodness to the Christian Churches throughout the world. Today we share in the experience of the Churches of the Caribbean and their history of oppression, colonisation and slavery. We also celebrate that through the scriptures they found their lives transformed by the liberating action of God.

By the Grace of God their chains of enslavement were replaced by new human bonds of love and community. In this action of God they found their unity.

May God speak to us through their experience.

INVOCATION OF THE HOLY SPIRIT

The response to the invocation may be sung.

Unite your servants in the bond of unity.

Come, Holy Spirit!

Teach us to pray.

Come, Holy Spirit!

Liberate us from the slavery of sin.

Come, Holy Spirit!

Help us in our weakness.

Come, Holy Spirit!

Restore us as your children.

Come, Holy Spirit!



Song of Praise

GWEDDIAU CYMOD

Fe'n gelwir gan Dduw i ryddid yng Nghrist. Ni dderbyniasom ysbryd caethiwed ac ofn ond yn hytrach cawsom ein mabwysiadu i'w deulu ef. Serch hynny, mae hen bechodau ac arferion yn parhau i'n cadw'n gaeth, felly gweddiwn a galwn ar drugaredd grym achubol Duw.

(Gellir canfod lluniau PowerPoint o gadwyni yn yr adnoddau ychwanegol ar-lein, drwy ddilyn www.ctbi.org.uk/weekofprayer)

Maddau i ni pan gwypwn i hen arferion pechadurus sy'n tansellio urddas pobl eraill.

Kyrie eleison.

Kyrie eleison.

Maddau i ni pan fydd ein dewisiadau ni yn cynnal caethiwed a thlodi.

Christe eleison.

Christe eleison.

Maddau i ni pan fo ofn ac amheuaeth yn ein gwahanu oddi wrth ein gilydd ac yn cyfyngu ar obaith ac iachâd.

Kyrie eleison.

Kyrie eleison.

Gellir cyhoeddi sicrwydd maddeuant

CYHOEDDI GAIR DUW

Exodus 15:1-17

Yna canodd Moses a'r Israeliaid y gân hon i'r Arglwydd:

'Canaf i'r Arglwydd am iddo weithredu'n fuddugoliaethus; bwriodd y ceffyl a'i farchog i'r môr. Yr Arglwydd yw fy nerth a'm cân, ac ef yw'r un a'm hachubodd; ef yw fy Nuw, ac fe'i gogoneddaff, Duw fy nhad, ac fe'i dyrchafaf. Y mae'r Arglwydd yn rhyfelwr; yr Arglwydd yw ei enw.

'Taflodd gerbydau Pharo a'i fyddin i'r môr; a boddwyd ei gapteiniaid dethol yn y Môr Coch. Daeth llifogydd i'w gorchuddio; a disgynasant i'r dyfnderoedd fel carreg. Y mae nerth dy ddeheulaw, O Arglwydd, yn ogoneddus; dy ddeheulaw, O Arglwydd, a ddryllia'r gelyn. Trwy dy fawrhydi aruchel darostyngaid dy wrthwynebwy; gollyngaist dy ddigofaint, ac fe'u difaodd hwy fel sofr. Trwy chwythiad dy ffroenau casglwyd y dyfroedd ynghyd; safodd y ffrydiau yn bentwr, a cheulodd y dyfnderoedd yng nghanol y môr. Dywedodd y gelyn, "Byddaf yn erlid ac yn goddiweddyd; rhannaf yr ysbail, a chaf fy nigoni ganddo; tynnaf fy nghleddyf, a'u dinistrio â'm llaw." Ond pan chwythaist ti â'th anadl, gorchuddiodd y môr hwy; nes iddynt suddo fel plwm i'r dyfroedd mawrion.

PRAYERS OF RECONCILIATION

God calls us to liberation in Christ. We have not received a spirit of slavery and fear but adoption into His family. But still old sins and habits enslave us, so let us pray and call on the mercy of God's saving power.

(PowerPoint images of chains can be found in the online additional resources which can be found at see www.ctbi.org.uk/weekofprayer)

Forgive us when we fall into old habits of sin that undermine the dignity of others.

Kyrie eleison.

Kyrie eleison.

Forgive us when our choices perpetuate enslavement and poverty.

Christe eleison.

Christe eleison.

Forgive us when fear and suspicion separate us from each other and place limits on hope and healing.

Kyrie eleison.

Kyrie eleison.

An assurance of pardon may be given

PROCLAMATION OF THE WORD OF GOD

Exodus 15:1-17

Then Moses and the Israelites sang this song to the Lord:

'I will sing to the Lord, for he has triumphed gloriously; horse and rider he has thrown into the sea. The Lord is my strength and my might, and he has become my salvation; this is my God, and I will praise him, my father's God, and I will exalt him. The Lord is a warrior; the Lord is his name.

'Pharaoh's chariots and his army he cast into the sea; his picked officers were sunk in the Red Sea. The floods covered them; they went down into the depths like a stone. Your right hand, O Lord, glorious in power— your right hand, O Lord, shattered the enemy. In the greatness of your majesty you overthrew your adversaries; you sent out your fury, it consumed them like stubble. At the blast of your nostrils the waters piled up, the floods stood up in a heap; the deeps congealed in the heart of the sea. The enemy said, "I will pursue, I will overtake, I will divide the spoil, my desire shall have its fill of them. I will draw my sword, my hand shall destroy them." You blew with your wind, the sea covered them; they sank like lead in the mighty waters.

“Pwy ymhlith y duwiau sy’n debyg i ti, O Arglwydd? Pwy sydd fel tydi, yn ogoneddus ei sancteiddrwydd, yn teilyngu parch a mawl, ac yn gwneud rhyfeddodau? Pan estynnaist dy ddeheulaw, llyncodd y ddaear hwy.

‘Yn dy drugaredd, arweini’r bobl a waredaist; a thrwy dy nerth eu tywys i’th drigfan sanctaidd.’

Gwrandewch ac fe gewch eich rhyddhau.

Diolch a fo i Dduw.

Salm 118: 5-7, 10-24

Gellid canu'r Salm: Awgrymir fersiynau mydryddol yn yr adnoddau ychwanegol

Rhufeiniaid 8:12-27

Am hynny, gyfeillion, yr ydym dan rwymedigaeth, ond nid i’r cnawd, i fyw ar wastad y cnawd. Oherwydd, os ar wastad y cnawd yr ydych yn byw, yr ydych yn sicr o farw; ond os ydych, trwy’r Ysbryd, yn rhoi arferion drwg y corff i farwolaeth, byw fyddwch. Y mae pawb sy’n cael eu harwain gan Ysbryd Duw yn blant Duw. Oherwydd nid ysbryd caethiwed sydd unwaith eto’n peri ofn yr ydych wedi ei dderbyn, ond Ysbryd mabwysiad, yr ydym trwyddo yn llefain, ‘Abba! Dad’. Y mae’r Ysbryd ei hun yn cyd-dystiolaethu â’n hysbryd ni, ein bod yn blant i Dduw. Ac os plant, etifeddion hefyd, etifeddion Duw a chyd-etifeddion â Christ, os yn wir yr ydym yn cyfranogi o’i ddiodeffaint ef er mwyn cyfranogi o’i ogoniant hefyd.

Yr wyf fi’n cyfrif nad yw dioddefiadau’r presennol i’w cymharu â’r gogoniant sydd ar gael ei ddatguddio i ni. Yn wir, y mae’r greadigaeth yn disgwyl yn daer am i blant Duw gael eu datguddio. Oherwydd darostyngwyd y greadigaeth i oferedd, nid o’i dewis ei hun, ond trwy’r hwn a’i darostyngodd, yn y gobaith y câi’r greadigaeth hithau ei rhyddhau o gaethiwed a llygredigaeth, a’i dwyn i ryddid a gogoniant plant Duw. Oherwydd fe wyddom fod yr holl greadigaeth yn ochneidio, ac mewn gwewyr drwyddi, hyd heddiw. Ac nid y greadigaeth yn unig, ond nyhi sydd â blaenffrwyth yr Ysbryd gennym, yr ydym ninnau’n ochneidio ynom ein hunain wrth ddisgwyl ein mabwysiad yn blant Duw, sef rhyddhad ein corff o gaethiwed. Oherwydd yn y gobaith hwn y cawsom ein hachub. Ond nid gobaith mo’r gobaith sy’n gweld. Pwy sy’n gobeithio am yr hyn y mae’n ei weld? Yr hyn nad ydym yn ei weld yw gwrthrych gobaith, ac felly yr ydym yn dal i aros amdano mewn amynedd.

Yn yr un modd, y mae’r Ysbryd yn ein cynorthwyo yn ein gwendid. Oherwydd ni wyddom ni sut y dylem weddio, ond y mae’r Ysbryd ei hun yn ymbil trosom ag ocheneidiau y tu hwnt i eiriau, ac y mae Duw, sy’n chwilio calonnau dynol, yn deall bwriad yr Ysbryd, mai ymbil y mae tros y saint yn ôl ewyllys Duw.

Gwrandewch, fel y gall pawb fod yn rhydd.

Diolch a fo i Dduw.

‘Who is like you, O Lord, among the gods? Who is like you, majestic in holiness, awesome in splendour, doing wonders? You stretched out your right hand, the earth swallowed them.

‘In your steadfast love you led the people whom you redeemed; you guided them by your strength to your holy abode.’

Listen and you will be set free.

Thanks be to God.

Psalm 118: 5-7, 10-24

The Psalm could be sung: Suggested metrical versions can be found in the additional resources

Romans 8:12-27

So then, brothers and sisters, we are debtors, not to the flesh, to live according to the flesh— for if you live according to the flesh, you will die; but if by the Spirit you put to death the deeds of the body, you will live. For all who are led by the Spirit of God are children of God. For you did not receive a spirit of slavery to fall back into fear, but you have received a spirit of adoption. When we cry, ‘Abba! Father!’ it is that very Spirit bearing witness with our spirit that we are children of God, and if children, then heirs, heirs of God and joint heirs with Christ—if, in fact, we suffer with him so that we may also be glorified with him.

I consider that the sufferings of this present time are not worth comparing with the glory about to be revealed to us. For the creation waits with eager longing for the revealing of the children of God; for the creation was subjected to futility, not of its own will but by the will of the one who subjected it, in hope that the creation itself will be set free from its bondage to decay and will obtain the freedom of the glory of the children of God. We know that the whole creation has been groaning in labour pains until now; and not only the creation, but we ourselves, who have the first fruits of the Spirit, groan inwardly while we wait for adoption, the redemption of our bodies. For in hope we were saved. Now hope that is seen is not hope. For who hopes for what is seen? But if we hope for what we do not see, we wait for it with patience.

Likewise the Spirit helps us in our weakness; for we do not know how to pray as we ought, but that very Spirit intercedes with sighs too deep for words. And God, who searches the heart, knows what is the mind of the Spirit, because the Spirit intercedes for the saints according to the will of God.

Listen, that all may be free.

Thanks be to God.

Gellir canu bonllef addas cyn ac ar ôl y darlleniad o'r Efengyl; fel arall, gellir canu emynau neu chwarae cerddoriaeth.

Marc 5:21-43

Gellir darllen y darn hwn mewn fersiwn wedi'i dramateiddio

Wedi i Iesu groesi'n ôl yn y cwch i'r ochr arall, daeth tyrfa fawr ynghyd ato, ac yr oedd ar lan y môr. Daeth un o arweinwyr y synagog, o'r enw Jairus, a phan welodd ef syrthiodd wrth ei draed ac ymbil yn daer arno: 'Y mae fy merch fach,' meddai, 'ar fin marw. Tyrd a rho dy ddwylo arni, iddi gael ei gwella a byw.' Ac aeth Iesu ymaith gydag ef.

Yr oedd tyrfa fawr yn ei ganlyn ac yn gwasgu arno. Ac yr oedd yno wraig ac arni waedlif ers deuddeng mlynedd. Yr oedd wedi dioddef yn enbyd dan driniaeth llawer o feddygon, ac wedi gwario'r cwbl oedd ganddi, a heb gael dim lles ond yn hytrach mynd yn waeth. Yr oedd hon wedi clywed am Iesu, a daeth o'r tu ôl iddo yn y dyrfa a chyffwrdd â'i fantell, oherwydd yr oedd hi wedi dweud, 'Os cyffyrddaf hyd yn oed â'i ddillad ef, fe gaf fy iacháu.' A sychodd llif ei gwaed hi yn y fan, a daeth hithau i wybod yn ei chorff ei bod wedi ei hiacháu o'i chlwyf. Ac ar unwaith dealodd Iesu ynddo'i hun fod y nerth oedd yn tarddu ynddo wedi mynd allan, a throes yng nghanol y dyrfa, a gofyn, 'Pwy gyffyrddodd â'm dillad?' Meddai ei ddisgyblion wrtho, 'Yr wyt yn gweld y dyrfa'n gwasgu arnat ac eto'n gofyn, "Pwy gyffyrddodd â mi?" Ond daliodd ef i edrych o'i gwmpas i weld yr un oedd wedi gwneud hyn. Daeth y wraig, dan grynu yn ei braw, yn gwybod beth oedd wedi digwydd iddi, a syrthiodd o'i flaen ef a dweud wrtho'r holl wir. Dywedodd yntau wrthi hi, 'Ferch, y mae dy ffydd wedi dy iacháu di. Dos mewn tangnefedd, a bydd iach o'th glwyf.'

